OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3985

# Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn, a enwir Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001, i rym ar 19 Rhagfyr 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

(a) mae "awdurdod cyfrifol" i gael ei ddehongli yn unol â "*responsible authority*" yn adran 50(3);

(b) ystyr "y diwrnod penodedig" ("*the appointed day*") yw'r diwrnod a benodir o dan adran 70 i adran 50(1) ddod i rym;

(c) ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ac mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf honno; ac

(ch) ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Support Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**1**) O.S. 1987/1967. Diwygiwyd Rheoliad 19 gan O.S. 1988/663, 1445 a 2022, O.S. 1989/1678, O.S.1991/1033, O.S. 1992/3147, O.S. 1993/2119, O.S. 1994/527 a 2139 ac O.S. 1996/206 a 462.